***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 1505

# Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (Yr A487) (Ffordd Osgoi Porthmadog, Minffordd a Thremadog a Thynnu Statws Cefnffordd) 2009

**1.** Bydd y priffyrdd newydd y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu hadeiladu ar hyd y llwybrau a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn dod yn gefnffyrdd ar y dyddiad pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym.

**2.** Dangosir llinellau canol y cefnffyrdd newydd â llinellau duon trymion a dangosir y cynigion cysylltiedig ar gyfer ffyrdd ymyl â llinellau gwynion wedi'u torri ar y plan a adneuwyd.

**3.** Bydd y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â llinellau rhesog llydan ar y plan a adneuwyd, yn peidio â bod yn gefnffordd ac yn dod yn ffyrdd dosbarthiadol ar y dyddiad pan fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hysbysu Cyngor Sir Gwynedd fod y cefnffyrdd newydd ar agor ar gyfer traffig trwodd.

**4.** Mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi i godi'r bont a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn fel rhan o'r brif gefnffordd newydd.

**5.** Yn y Gorchymyn hwn:—

(1) Caiff pob mesur o bellter ei fesur ar hyd llwybry briffordd berthnasol;

(i) ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn y Rhif HA 10/2 WAG 1 ac sydd wedi'i farcio "Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (Ffordd Osgoi Porthmadog, Minffordd a Thremadog a Thynnu Statws Cefnffordd) 2009" , wedi'i lofnodi ar ran Gweinidogion Cymru ac wedi'i adneuo yn yr Uned Storio ac Adfer Cofnodion (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd;

(ii) ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487);

(iii) ystyr "y cefnffyrdd newydd" ("*the new trunk roads*") yw'r cefnffyrdd a grybwyllir yn erthygl 1 y Gorchymyn hwn ac ystyr "cefnffordd newydd" yw un o'r priffyrdd hynny;

**6.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Mehefin 2009 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (Ffordd Osgoi Porthmadog, Minffordd a Thremadog a Thynnu Statws Cefnffordd) 2009'

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

17 Mehefin 2009 *Jeff Collins*

***J COLLINS***
Dirprwy, Gyfarwyddwr Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth

Llywodraeth Cynulliad Cymru